## CYNLLUN

# DERWEN

Arfogi cenhedlaeth newydd o genhadon i Gymru

"Byddan nhw'n cael eu galw yn goed hardd,
wedi'u plannu gan yr ARGLWYDD i
arddangos ei ysblander."
Eseia 61:3

# Ein Gweledigaeth

Bwriad y cynllun yw datblygu arweinwyr a fydd yn flaenllaw mewn cenhadaeth arloesol i'r ardaloedd yng Nghymru ble mae tystiolaeth fyw i'r efengyl wedi edwino neu ddiflannu. Bydd yn siapio mynegiant cyfoes o Gristnogaeth yn ein gwlad. Nid yw'n gynllun academaidd, yn hytrach y bwriad yw datblygu sgiliau a chymeriad yr arweinydd. Bydd y cynllun yn arfogi'r myfyrwyr gyda profiadau y bydd rhagleni, mudiadau, a cyrsiau eraill yn adeiladu arnynt.

Mae'r cynllun ar gyfer unrhyw un sydd a chalon dros rannu y newyddion da am Iesu mewn dull newydd ac arloesol yng Nghymru. Gall fod yn gam cyntaf tuag at genhadaeth newydd i rai, ac i eraill, yn gynllun fydd yn cefnogi eu datblygiad fel arweinwyr newydd.

Meddyliwch...
Petaem yn cymryd o ddifri yr angen am eglwysi sy'n gyfoes, yn berthnasol, sy'n edrych allan, gyda chymuned Gristnogol ym mhob cymuned, pob grŵp diwylliannol ac ieithyddol... Rhaid i bobl weld mynegiant o eglwys y medrant uniaethu â hi, a theimlo'n 'gartrefol' ynddi... Beth os na wnawn...?

- David Ollerton, Cenhadaeth Newydd i Gymru

# Ein Cynllun

Bydd myfyriwr yn rhan o'r cynllun am ddwy flynedd. Yn ystod y cyfnod hwn bydd cyfleon i ddysgu, cymdeithasu, gweddïo a thyfu mewn digwyddiadau cenedlaethol a rhanbarthol, ochr yn ochr â perthynas â mentor lleol a profiadau ar leoliad.

| | |
|---|---|
| Medi | Grŵp Cenedlaethol |
| Hydref | Cyfarfod Mentor |
| Tachwedd | Arfogi - Coleg y Bala |
| Rhagfyr | |
| Ionawr | Grŵp Rhanbarthol |
| Chwefror | Cyfarfod Mentor |
| Mawrth | Grŵp Cenedlaethol |
| Ebrill | Cyfarfod Mentor |
| Mai | Grŵp Rhanbarthol |
| Mehefin | Cyfarfod Mentor |
| Gorffennaf | Diwrnod Cenedlaethol |

## Cenedlaethol

Tair gwaith y flwyddyn fe fydd myfyrwyr yn encilio am gyfnod o 24awr er mwyn cymdeithasu, addoli, gweddïo, a thyfu mewn awyrgylch gartrefol, fydd yn bwrpasol.

Bydd yr encil wedi ei seilio ar fodel 'dysgu cymunedol' ac yn dechrau ar don o ddatblygiad a dysgu fydd yn parhau yn y grwpiau rhanbarthol.

## Rhanbarthol

Bydd y grwpiau llai hyn yn casglu myfyrwyr sydd mewn ardal benodol, gan roi cyfle i gymdeithasu a gweddïo dros eu gilydd, yn ogystal â pharhau i drafod a cymhwyso yr hyn a ddysgwyd yn yr encil genedlaethol.

Bydd amledd ac amser y cyfarfodydd hyn yn amrywio o un rhanbarth i'r llall (yn ddibynnol ar yr aelodau yn y grŵp).

## Mentor Lleol

Mae'n ofynnol i bob myfyriwr gael mentor lleol bydd yn ymrwymo i'w cynorthwyo dros y ddwy flynedd. Bydd yn ceisio sicrhau bod y myfyriwr yn cael yr elw gorau o'r cynllun, yn ogystal â cheisio annog dysgu a datblygiad ehangach. Fe all hyn gynnwys profiadau gwahanol tu fewn a thu hwnt i Gymru.

Bydd yn ofynnol i'r mentor fynychu'r cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol, ac i gyfarfod yn rheolaidd gyda'r myfyriwr.

# Ymunwch â ni

*Rydym yn frwdfrydig iawn i wireddu ein gweledigaeth. I sylweddoli hyn rydym angen partneriaeth a chefnogaeth i weld cenhedlaeth newydd o genhadon yn cael eu harfogi ac i sicrhau fod pob ardal a grŵp yng Nghymru yn clywed y newyddion da am Iesu.*

- Oes gyda chi galon dros gyrraedd Cymru gyda’r newyddion da? Ydy Duw wedi rhoi breuddwyd a dyhead ar eich calon? Hoffech chi fod yn rhan o’r cynllun?
- Oes aelod yn eich eglwys , enwad, neu fudiad fyddai'n elwa o fod yn rhan o’r cynllun hwn?
- Oes gyda chi weithiwr neu fyfyriwr fyddai’n elwa ac yn cael eu cyfoethogi gan y profiad hwn, ac yn sbardun i’w datblygiad?
- A fyddech chi’n gallu bod yn rhan or cynllun trwy gefnogi myfyriwr i ddatblygu a tyfu mewn ffydd a doniau? Hoffech chi fod yn fentor lleol?

# Cefnogaeth Ariannol

*Ydych chi, neu eich eglwys yn barod i bartneru â ni i weld cenhedlaeth newydd o arweinwyr yn cael eu harfogi ar gyfer cenhadaeth newydd yng Nghymru?*

Byddai 10 unigolyn yn cyfrannu £10 y mis yn noddi un myfyriwr i fod ar y cynllun

Byddai 10 eglwys yn cyfrannu £30 y mis yn noddi un cyfarfod cenedlaethol*

Byddai 1 cyfraniad o £3600 yn noddi un cyfarfod cenedlaethol*

**i gyfarfod costau 15 myfyriwr a'i mentor, a chostau y sawl fydd yn dysgu.*

# Partneriaeth a Pherchnogaeth

Mae cynllun Derwen yn bartneriaeth rhwng Cymrugyfan a Souled Out Cymru ac mae'n ceisio partneriaeth gyda enwadau a mudiadau eraill yng Nghymru. Cysylltwch â ni i sgwrsio am sut allwn ni weithio gyda'n gilydd fel bod pobl yn eich cyd destun chi yn gallu elwa o'r hyfforddiant, ac y gallwn, gyda'n gilydd, fuddsoddi yn Cynllun Derwen.

Cyswllt: derwen@cymrugyfan.org